**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-487
Ein cyf/Our ref CS/00522/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

24 Ebrill 2014

Annwyl William

Diolch am eich llythyr yn gynharach yn y mis.

Trosglwyddais awgrym polisi eich deisebydd i'm swyddogion er mwyn iddynt edrych arno'n fanylach, ac maent wedi tynnu sylw at rai materion a allai olygu y byddai'n anodd rhoi'r fenter ar waith.

Dan gynnig eich deisebydd, byddai Llywodraeth Cymru'n darparu benthyciadau i aelwydydd yn lle'r blaendal traddodiadol. Y perygl yw na fyddai prynwyr dan y cynllun hwn yn buddsoddi unrhyw arian eu hunain yn yr eiddo ac, o ganlyniad, byddai llawer mwy o berygl o ddiffygdalu ac adfeddiannu'r tŷ - a Llywodraeth Cymru'n wynebu'r colledion.

Hefyd mae'r cynllun yn gofyn i fenthycwyr gymryd rhan. Mae hyn yn debyg o fod yn anodd gan y byddai'r benthycwyr hefyd yn wynebu'r perygl uwch o ddiffygdalu ac adfeddiannu fel y nodwyd uchod. Dyma un o'r ffactorau a ddaeth i'r golwg wrth lunio'r cynllun Cymorth i Brynu - Cymru, a'r rheswm dros ddewis gosod amod o 5% o flaendal.

O ganlyniad, ar ei ffurf bresennol, rwyf o'r farn y byddai'r cynnig hwn yn anodd ei ddilyn. Fodd bynnag, os oes gan eich deisebydd awgrymiadau pellach ar sut i liniaru'r peryglon hyn, byddaf yn fwy na pharod i'w hystyried.

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*